| 6. Mae staff yn gweithredu proses RARPA yn effeithiol drwy'r holl sefydliad | Cwestiynau i'w gofyn | Cwestiynau i ganfod y ffynonellau tystiolaeth |
|---|---|---|
| *6.1 Mae staff addysgu, staff cymorth dysgu, a staff a gwirfoddolwyr rhyngddisgyblaethol perthnasol eraill yn gallu cael gafael ar wybodaeth ac yn cael hyfforddiant i ddefnyddio RARPA.*<br><br>*Maent i gyd yn deall:*<br>• *natur, diben a phwysigrwydd 5 elfen RARPA*<br>• *gosod targedau unigol sy'n cefnogi dilyniant;*<br>• *y gofynion wrth gofnodi data a gwybodaeth o dan y system;*<br>• *y trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer RARPA.*<br>*Maent yn weithgar ac yn ymwneud â phob un o'r pum cam.* | • *Pa wybodaeth am ddefnyddio RARPA sydd ar gael ar gyfer pob un o'r grwpiau gwahanol o staff sy'n gweithio gyda dysgwyr SBA; staff addysgu? Staff cymorth dysgu? Staff eraill (e.e. tiwtoriaid galwedigaethol sy'n cynnig cyfleoedd blasu galwedigaethol, hyfforddwyr swyddi, staff systemau rheoli gwybodaeth, rheolwyr cwricwlwm ac ati)?*<br>• *Sut y mae'r aelodau hyn o staff yn canfod beth yw eu rôl ym mhroses RARPA? Pa mor dda y maent yn deall y broses a'u rôl yn y broses?*<br>• *Pa mor dda yw'r staff wrth osod targedau realistig ac ystyrlon gyda dysgwyr?*<br>• *Sut y gwyddoch chi fod yr holl staff yn 'weithgar ac yn ymwneud' â'r 5 cam?* | 1. *Pa wybodaeth sydd ar gael i staff;*<br>• *Mewn llawlyfrau? Yn y cyfnod sefydlu?*<br>• *Drwy ddatblygu proffesiynol parhaus mewnol ac allanol?*<br>• *Drwy fentora? Ar-lein?*<br>• *A yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru?*<br>2. *Beth y mae staff (gan gynnwys rhai rhan amser, cynorthwywyr cymorth dysgu, a rheolwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu staff) yn ei ddweud am eu dealltwriaeth a'u defnydd o RARPA?*<br>3. *A oes tystiolaeth i ddangos bod yr holl staff addysgu a'r staff cymorth dysgu yn rhoi RARPA ar waith wrth ymarfer?* |

| | | |
|---|---|---|
| *6.2 Mae'r gwaith o weithredu proses RARPA yn gyson drwy'r holl sefydliad.* | • *Sut y mae'ch sefydliad chi'n rheoli cysondeb? Pa systemau sydd gan eich sefydliad i sicrhau bod proses RARPA yn gyson ar bob campws/safle ac ar bob cwrs SBA?* | 4. *Pa dystiolaeth sydd i'w chael yn ffeiliau'r dysgwyr o gysondeb wrth weithredu proses RARPA yn yr holl raglenni dysgu drwy'r sefydliad?* |

| **7. Mae system sicrhau ansawdd yn bodoli ar gyfer adolygu a gwella'r ddarpariaeth gan ddefnyddio proses RARPA** | **Cwestiynau i'w gofyn** | **Cwestiynau i ganfod y ffynonellau tystiolaeth** |
|---|---|---|
| *7.1 Mae cylch ansawdd clir wedi'i sefydlu sy'n cynnwys holl elfennau RARPA, yr holl agweddau ar y ddarpariaeth a'r holl staff. Mae hyn yn canolbwyntio ar y dysgwr ac wedi'i wreiddio yn system gwella ansawdd gyffredinol y sefydliad.* | • *Sut y mae'r cylch ansawdd sydd wedi'i seilio ar RARPA yn gweithio?*<br>• *Sut y mae'n cysylltu â system rheoli ansawdd gyffredinol y coleg – a yw'n rhan ganolog ohoni, neu'n ychwanegiad ati'n unig?*<br>• *Sut y mae prosesau rheoli ansawdd y coleg yn ystyried gwybodaeth sy'n deillio o ddata ansoddol?* | 1. *A yw cylch ansawdd y sefydliad a'r calendr sicrhau ansawdd ar gyfer y maes rhaglen SBA yn rhoi tystiolaeth o gylch ansawdd clir?*<br>2. *A yw trafodaethau â thiwtoriaid cyrsiau, rheolwyr adrannau, rheolwyr y cwricwlwm a rheolwyr ansawdd yn cadarnhau bod y cylch wedi'i sefydlu, ei fod yn canolbwyntio ar y dysgwr, a'i fod wedi'i wreiddio'n llwyr yn y system ansawdd gyffredinol?* |
| *7.2 Ceir dulliau mewnol ar gyfer cymedroli pa mor effeithiol yw RARPA* | • *Sut y mae'r gwaith mewnol o gymedroli proses RARPA yn cael ei gyflawni?*<br>• *Pa mor effeithiol yw'r broses? A yw'r broses yn cael ei rhoi ar waith yn gyson drwy'r holl ddarpariaeth?*<br>• *A yw'r rheini sy'n gyfrifol am gymedroli effeithiolrwydd RARPA wedi cael eu hyfforddi?* | 3. *A oes tystiolaeth bod gweithdrefn wedi'i sefydlu?*<br>4. *A oes cofnodion o'r cymedroli/safoni mewnol?*<br>5. *Pa dystiolaeth sydd fod y cynlluniau samplo a ddefnyddir gan y rheini sy'n cymedroli'n fewnol ar yr holl gyrsiau yn addas?* |

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

| | | |
|---|---|---|
| *7.3 Mae adolygiad hunanarfarnu'r darparwr o broses RARPA yn drylwyr ac yn gyson ac mae'r cynllun gwella ansawdd yn arwain at welliannau* | • *Pa brosesau sydd wedi'u sefydlu i sicrhau bod proses RARPA yn cael ei chyflawni'n ddigon trylwyr?*<br>• *Sut y mae data am gyflawniad, cynnydd a dilyniant dysgwyr yn cael eu dadansoddi a'u defnyddio yn sail i brosesau gwella ansawdd y coleg?* | 6. *Pa dystiolaeth sydd yn nogfennau'r rhaglen, yr adolygiad hunanarfarnu neu'r cynllun gwella i ddangos bod yr adolygiad hunanarfarnu o RARPA yn cael ei gyflawni'n ddigon trylwyr?*<br>7. *Pa dystiolaeth sydd i ddangos bod y camau gweithredu ar gyfer gwella yn cael eu cwblhau, eu monitro a'u gwerthuso?*<br>8. *A yw sgyrsiau â dysgwyr/rhanddeiliaid a thrafodaethau â staff a rheolwyr yn rhoi tystiolaeth o broses drylwyr a chyson?* |
| *7.4 Mae dulliau allanol ar gael i gadarnhau pa mor effeithiol yw RARPA (Cynlluniau ffrindiau/cymheiriaid beirniadol rhwng colegau)* | • *Pa drefniadau sy'n bodoli i gadarnhau pa mor effeithiol yw RARPA?*<br>• *A oes system ar gyfer samplo gwahanol gyrsiau, mewn gwahanol gampysau, ac o gofnodion pawb sydd wedi bod yn rhan o'r broses gymedroli fewnol?*<br>• *A yw'r broses yn un adeiladol a thrylwyr ill dau?* | **Cwestiynau i'r ffrindiau/cymheiriaid beirniadol sy'n rhan o'r broses gadarnhau**<br>1. *Pa dystiolaeth sy'n bodoli i ddangos bod y cofnodion cymedroli mewnol yn gyson ac yn drylwyr?*<br>2. *Wrth adolygu samplau o waith a chynnydd dysgwyr, a yw'r samplau yn ddigonol ac a* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *yw'r dyfarniadau'n gyson â deilliannau'r broses gymedroli fewnol?*<br>3. *A oes tystiolaeth i gefnogi asesiad darparwyr o ba mor effeithiol y mae darpariaeth sy'n defnyddio RARPA wedi'i gwreiddio yn rhan o holl elfennau cylch sicrhau ansawdd y sefydliad?*<br>4. *A yw adolygiad hunanarfarnu'r adran ar gyfer darpariaeth sy'n defnyddio RARPA yn nodi meysydd i'w gwella a meysydd datblygu proffesiynol?*<br>5. *A oes tystiolaeth o gynnydd gyda'r argymhellion/camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn ystod unrhyw ymweliadau blaenorol?* |

| 8. Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad a datblygu proffesiynol mewn perthynas â RARPA | Cwestiynau i'w gofyn | Cwestiynau i ganfod y ffynonellau tystiolaeth |
|---|---|---|
| *8.1 Mae'r gwaith o weithredu proses RARPA a'r addysgu, y dysgu a'r asesu yn gwella drwy reoli perfformiad trylwyr a datblygu proffesiynol addas. Mae hyn yn effeithiol wrth fynd i'r afael â thanberfformiad.* | • *Pa systemau sy'n bodoli i wneud hyn?*<br>• *I ba raddau y mae'r gofynion ar gyfer datblygu proffesiynol a ddynodwyd ar gyfer darpariaeth sy'n defnyddio RARPA wedi'u cynnwys yn rhaglenni datblygu proffesiynol parhaus a chynlluniau gwella'r coleg?* | 1. *Pa dystiolaeth sydd i ddangos bod tanberfformiad yn cael sylw drwy osod targedau perfformio clir i athrawon sy'n tanberfformio a bod y broses o weithredu hynny wedi cael ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd?* |
| *8.2 Mae targedau gwella trylwyr yn cael eu gosod i unigolion, adrannau a'r holl sefydliad. Mae'r rhain yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd yn unol â phroses hunanarfarnu'r sefydliad.* | • *Pan fydd adran neu'r holl sefydliad yn tanberfformio, a oes tystiolaeth bod targedau gwella trylwyr wedi'u gosod a bod y broses o weithredu hynny wedi cael ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd?* | 2. *A oes tystiolaeth o broses drylwyr ar gyfer gosod targedau, monitro ac adolygu?* |
| *8.3 Mae cysylltiad clir rhwng y rhaglen datblygu proffesiynol parhaus a chynlluniau gwella, ac mae'r rhaglen honno'n gynhwysfawr, yn amserol, ac yn defnyddio dulliau addas fel: cysgodi; mentora; hyfforddi; deialog; cefnogaeth a hyfforddiant pan fydd angen, ac mae'n arwain at welliannau amlwg mewn perfformiad* | • *Pa systemau sy'n bodoli i greu cysylltiad rhwng y cynlluniau gwella a'r rhaglen datblygu proffesiynol parhaus?*<br>• *Pa wahanol ddulliau sy'n cael eu defnyddio? Sut ydych chi'n gwybod a ydynt yn effeithiol ai peidio?* | 3. *Pa dystiolaeth sydd i ddangos bod amrywiaeth o ddulliau cefnogol yn cael eu defnyddio i wella perfformiad athrawon a chynorthwywyr cymorth?*<br>4. *Pa dystiolaeth sydd i ddangos effaith datblygu proffesiynol parhaus wrth wella perfformiad?* |

| | | |
|---|---|---|
| *8.4 Caiff arferion gorau eu rhannu fel rhan o raglen gydlynol o ddatblygu proffesiynol. Mae timau staff yn cael cyfleoedd i ddatblygu, trafod a rhannu arferion gorau o ran RARPA.* | • *Sut y caiff arferion effeithiol eu rhannu?* | *5. Pa dystiolaeth sydd i ddangos bod staff yn cael cyfleoedd i ddatblygu, trafod, arsylwi a rhannu arferion da?* |
| *8.5 Mae adnoddau digonol yn cael eu darparu i sicrhau bod modd gwella perfformiad.* | • *A oes digon o adnoddau i'r holl grwpiau o staff sy'n rhan o broses RARPA?* | *6. Wrth gynnal trafodaethau â'r staff, a yw pawb yn gallu defnyddio adnoddau a fydd yn eu helpu i wella'u perfformiad?* |